

RHEOLWR DYSGU A DATBLYGU CYNORTHWYOL

RHIF SWYDD: 503244

GRADD: 11

CYFLOG: £32,234 i £32,910

37 awr yr wythnos

Mae swydd gyffrous barhaol wedi codi o fewn Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Wedi'i lleoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth yn Llantrisant, mae'r swydd hon yn rhan o gynnydd ehangach tîm Dysgu a Datblygu'r Gwasanaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adrodd i'r Rheolwr AD (Dysgu ac Addysgu), ac yn gyfrifol am gyflwyno holl ddatrysiadau Dysgu, Datblygu ac Ymgysylltu a gynigir gan yr Adran, yn ogystal â rheoli'r Tîm Dysgu a Datblygu o ddydd i ddydd. Bydd deiliad y swydd yn ymuno â'r tîm ar adeg arbennig o gyffrous yn sefydlu datrysiadau dysgu newydd ac yn ffocysu ymhellach ar ddatblygu diwylliant gweddnewidiol ar draws y sefydliad.

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar brofiad blaenorol o arwain datrysiadau sy'n ffocysu ar gwsmeriaid o fewn maes Dysgu a Datblygu a/neu AD yn ogystal â dealltwriaeth dda o bwysigrwydd gweithgareddau datblygu a dilyniant o fewn cyd-destun sefydliadol. Mae profiad o reoli timau yn ogystal â'r gallu i gydweithio a gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol ill dau hefyd yn ofynnol.

Noder na fydd cyfle i lenwi'r swydd ar sail secondiad neu rannu swydd.

Oherwydd natur y swydd, fydd yn ofynnol i'r unigolyn weithio fin nos neu ar benwythnosau yn ogystal â theithio rhywfaint ar draws ardal GTADC. Mae gallu teithio'n annibynnol yn hanfodol.

Gellir canfod mwy o fanylion sy'n ymwneud â'r swydd hon yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person y gellir eu lawr lwytho ynghyd â'r Ffurflen Gais o dudalenau Gweithio i Ni/ Gyrfaoedd ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk

Os bydd gennych ymholiadau pellach yn ymwneud â'r swydd, mae croeso i chi gysylltu â **Serena Ford (Rheolwr AD - Dysgu a Datblygu)** drwy law e-bost: s-ford@decymru-tan.gov.uk.

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost at personnel@southwales-fire.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12:00 hanner dydd, 31/01/2022.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg. Gallai fod angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad cofnodion troseddol sylfaenol boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.

Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

